# LC1460

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

Nid yw prentisiaid yn cael eu hystyried wrth edrych ar nifer yr oedolion sy’n preswylio mewn annedd ar gyfer penderfynu os dylid rhoi disgownt ar fil treth cyngor. I fod yn gymwys i gael disgownt rhaid i brentis beidio ag ennill mwy na swm penodedig. Mae’r Gorchymyn hwn yn cynyddu’r terfyn enillion o £160 yr wythnos i £195 yr wythnos ac yn diddymu’r gofyniad bod yn rhaid i brentis yn ennill cyflog is o lawer na’r cyflog y disgwylir iddo ennill yn y dyfodol.

Mae’r Gorchymyn hefyd yn diwygio’r diffiniadau o "prescribed educational establishments", "further education" a "foreign language assistants" i ystyried diwygiadau mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth ers gwneud Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) 1992.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**13 Chwefror 2007**